Mae pawb yn cael eu galw ...

“Galwodd Duw chwi wrth eich enw a’ch gwneud yn eiddo iddo’i hun.”

Mae pob Cristion yn cael ei alw gan Dduw. Fe’n gelwir i fod yn ddisgyblion i Iesu ac i barhau ei genhadaeth i’r byd. Gelwir rhai i weinidogaethau arbennig yn yr eglwys, i fod yn ddiaconiaid, offeiriaid, esgobion, mynaich, lleianod, efengylwyr, darllenwyr, gweinidogion ewcharistaidd lleyg, neu i nifer o wahanol weinidogaethau eraill.

Gelwir diaconiaid ...

Gwaith arbennig diacon yw dangos mewn gwasanaeth cariadlon fod gan Dduw ofal am fywyd yn ei gyfanrwydd.

Mae diacon yn gweinidogaethu’n arbennig i’r tlawd, y claf, yr anghenus, y gofidus, y gorthrymedig, a’r rhai y mae’r byd yn eu gwthio i’r cyrion.

Mae diaconiaid yn cysylltu addoliad yr eglwys â bywyd bob dydd. Y maent yn cynorthwyo’r eglwys i gysylltu ffydd â bywyd mewn gweithleoedd a mudiadau, ac yn y gymdeithas, y cartref a’r gymdogaeth.

Digwydd y rhan fwyaf o’u gweinidogaeth yn y mannau hyn, mewn gwasanaeth, gofal bugeiliol, pregethu, dysgu a gweddïo.

Mae llawer ffordd o fod yn ddiacon ...

Mae’n draddodiad fod y rhai a elwir gan yr eglwys i fod yn offeiriaid yn treulio blwyddyn yn gwasanaethu fel diaconiaid.

Mae Duw’n galw eraill i weinidogaeth benodol fel diaconiaid. Fel rheol, bydd y diaconiaid hyn yn byw yn eu cartrefi eu hunain; byddant yn gweinidogaethu yn eu heglwys a’u cymuned leol a byddant yn eu cynnal eu hunain yn ariannol.

Mae’r sefyllfa benodol y gelwir diaconiaid iddi yn pennu, i raddau helaeth, siâp eu gweinidogaeth.

Mae diaconiaid yn gweithio gyda chlerigion lleol, gweinidogion eraill a holl bobl Dduw, i rannu gweinidogaeth Crist a galluogi eraill.

Y mae ar yr eglwys angen diaconiaid o wahanol oedrannau a chefndiroedd.

The Church in Wales
Yr Eglwys yng Nghymrus

The ministry of a Deacon

Gweinidogaeth Diacon

All are called to serve

"God has called you by name and made you his own"

All Christians are called by God. He calls us to be disciples of Jesus and to continue his mission in the world. Some will be called to particular ministries in the church as deacons, priests, bishops, monks, nuns, evangelists, readers, lay eucharistic ministers and a variety of other ministries.

Deacons are called...

The particular work of the deacon is to show through loving service that God is concerned with the whole of life.

The deacon's ministry is especially among the poor, the sick, the needy, the troubled, those who are oppressed and those whom the world pushes to the edge.

Deacons connect the worship of the church with every day life. They assist the church in relating faith to life in places of work, organizations, society, the home and neighbourhood.

Most of their ministry takes place in these contexts, through service, pastoral care, preaching, teaching and prayer.

There are many ways of being a deacon...

Traditionally those called by the church to priesthood spend twelve months serving as a deacon.

God calls others to a distinctive ministry as deacons. Usually these deacons will live in their own home, minister in their local church and community and be financially self-supporting.

The particular situation in which deacons are called to a large extent determines the shape of their ministry.

Deacons work with local clergy, other ministers and all the people of God, sharing in the ministry of Christ and equipping others.

The church needs deacons of many different ages and backgrounds.

What next? Beth nesaf?

This leaflet is one of a series including: discipleship and lay ministries; deacons; priests; Readers.
Mae'r daflen hon yn un o gyfres sy'n cynnwys: disgyblyddiaeth a gweinidogaethau lleyg; diaconiaid; offeiriaid; darllenwyr.

If you feel that God may be calling you, listen and talk to God, to those who know you well and to your parish priest or chaplain.
If you believe that God may be calling someone you know, pray for them and talk with them.
Os teimlwch y gall fod Duw yn eich galw, gwrandewch ar Dduw a siaradwch ag ef.
Siaradwch hefyd â'r rhai sy'n eich adnabod yn dda ac â'ch offeiriad plwyf neu eich caplan. Os teimlwch y gall fod Duw yn galw rhywrai yr ydych yn eu hadnabod, gweddïwch drostynt a siaradwch â hwy.

Further copies from your diocesan office or ring 029 2034 8250. Copïau ychwanegol o swyddfa eich esgobaeth, neu ffôniwch 029 2034 8250.

For more information contact:
Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Church in Wales / Yr Eglwys yng Nghymru 2005